

Blaenau Gwent



Cynllun Rheoli Cyrchfan

2016-19



MYNEGAI

1. Mynegai	2
2. Rhagair	3
3. Cyflwyniad i Rheoli Cychfan	5
4. Polisi a Phartneriaeth	6
5. Edrych yn ôl	9
6. Reviewing Local data trends	10
7. Dadansoddiad CGCB	11
8. Yn y Dyfodol	13
9. Blaenau Gwent Cynllun Rheoli Cychfan 2016/19	17
10. Atodiadau	25
a. Atodiadau 1 - Rhestr Ymgylngoreion	
b. Atodiadau 2 - Rhestr darparwyr llety	
c. Atodiadau 3 - Rhestr Gweithgareddau	
d. Atodiadau 4 - Rhestr Atyniadau	
e. Atodiadau 5 - Rhestr Safleoedd Twristiaeth Busnes	
f. Atodiadau 6 - List of Heritage Sites	
g. Atodiadau 7 - Rhestr Amgueddfeydd ac Archifdai	
h. Atodiadau 8 - Rhestr Parciau a Safleoedd Cefn Gwlad	
i. Atodiadau 9 - Rhestr Theatrau a Sinema	



Llun Clawr: Cwm Tyleri, Abertyleri

01 - Rhaeadr Tŷ Gwyn, Ceunant Clydach

02 - Golygfa o Ebwy Fach o Eglwys Illtyd Sant

03 - The Cambrian Inn, Tredegar

RHAGAIR

Mae'n bleser mawr gennyf ysgrifennu'r rhagair i ail Gynllun Rheoli Cychfan Blaenau Gwent. Mae Blaenau Gwent yn un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru ond mae ganddo hanes hir a balch a thirwedd hynod ddiddorol yr ydym yn awyddus i'w rannu gydag ymwelwyr. Gwnaethom gamau breision ymlaen mewn blynyddoedd diweddar ond sylweddolwn fod angen i ni wneud mwy i gyflawni ein potensial fel cychfan twristiaeth.

Cafodd y tirwedd ei adfer a'i adfywio gyda nentydd glân a choedwigoedd yn gynefin i gymuned ffyniannus o fywyd gwyllt. Tirwedd sydd yn awr yn cynnig nifer di-ben-draw o gyfleoedd cerdded a seiclo. Rydym yn ymfalchïo yn etifeddiaeth ein hardal, y gellir olrhain llawer ohoni yn ein hamgueddfeydd ac archifau a bryniau sy'n llawn olion o'r gorffennol.

Yna mae llawer o ychwanegiadau newydd, gyda chynlluniau ar gyfer trac rasio diweddaraf Prydain yng Nglynebwy sydd â'r potensial i sbarduno newid gwirioneddol ar gyfer Blaenau Gwent a De Ddwyrain Cymru. Bydd llawer o'r camau gweithredu yn ein cynllun yn paratoi ein hardal ar gyfer yr ymwelwyr a busnesau a allai ddod yn sgl cyfle o'r fath.


Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau gyda llawer o fusnesau twristiaeth newydd yn sefydlu'n lleol, gan fanteisio ar y lleoliad a phopeth sydd ganddo i'w gynnig. Mae gennym hefyd gyfoeth o fusnesau, yn cynnwys lleoliadau unigryw ar gyfer cynadleddau a chyfarfodydd y dymunwn eu helpu gyda'u twf a'u potensial am elw. Gwyddom o adborth fod ymwelwyr yn mwynhau eu hunain pan dreuliant amser ym Mlaenau Gwent ond rydym eisiau herio a newid canfyddiadau o'r ardal a thrwy wneud hynny ddenu mwy o ymwelwyr.

Gwelsom fuddsoddiad enfawr mewn seilwaith lleol gyda'r datblygiadau i ffordd Blaenau'r Cymoedd a rheilffordd Cwm Ebwy. Rydym yn awr yn edrych ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau hyn i'n cynnrych twristiaeth. Gwyddom

fod seiclo a cherdded yn ddau o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd ym Mlaenau Gwent ac mae'n rhaid i ni barhau i ddatblygu a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn.

Rydym wedi cyflawni cymaint drwy ein Cynllun Rheoli Cychfan blaenorol ond mae'n amser adolygu'r hyn a gyflawnwyd, ystyried a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cafodd cynnwys y cynllun hwn ei hysbysu gan amrywiaeth o bartneriaid lleol ac mae gan bawb ohonom ran yn ei lwyddiant. Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn cydweithio i gyflawni'r cynllun i wneud Blaenau Gwent yn lle gwell i fyw a gweithio.

Councillor Jim McIlwee
Aelod Gweithredol Economi,
Seilwaith a Byw Egnïol



CYFLWYNIAD I RHEOLI CYRCHFAN

Rheoli Cyrchfan yw cydlynu a chyflenwi'r holl agweddau niferus sy'n cyfoethogi profiad ymwelwyr. Mae'n edrych ar bethau o safbwynt ymwelwyr ac yn sicrhau fod preswylwyr, busnesau a'n hamgylchedd mewn sefyllfa dda i gyflenwi'r profiad gorau posibl yn ein cyrchfan. Mae sicrhau fod cyrchfan yn gweithio'n effeithlon o safbwynt ymwelwyr yn rhan hanfodol o Reoli Cyrchfan llwyddiannus.

Cynllun Rheoli Cyrchfan

Y Cynllun Rheoli Cyrchfan yw'r ddogfen strategol sy'n gosod ein gweledigaeth ar gyfer ffordd ymlaen gyda ffocws ar ymwelwyr at ddatblygu twristiaeth yn yr ardal. Ei brif allbwn yw Cynllun Gweithredu Cyrchfan sy'n nodi'r camau ymarferol a allai, pe byddai'r holl randdeiliaid yn mynd â nhw rhagddynt ar y cyd, wneud gwahaniaeth cadarnhaol, gwella ansawdd profiad ymwelwyr a thyfu'r economi ymwelwyr ym Mlaenau Gwent. Bydd rhai camau yn fach ac ar unwaith tra gall eraill fod yn bellgyrhaeddol ac uchelgeisiol.

Partneriaeth Rheoli Cyrchfan

Bydd llwyddiant Rheoli Cyrchfan yn dibynnu ar ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chydweithio cryf wrth gyflawni'r blaenoriaethau a nodir o fewn y cynllun. Caiff y Cynllun Rheoli Cyrchfan ei fonitro a'i adolygu'n chwarterol gan Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent

sy'n cynnwys rhanddeiliaid twristiaeth, aelodau Blaenau Gwent a'r swyddogion perthnasol, sydd i gyd â gwybodaeth waith dda o'r sector ac sy'n dod â'u sgiliau, arbenigedd a brwdfrydedd i'r bartneriaeth. Cynhaliodd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan ei chyfarfod cyntaf ar 11 Ebrill 2016.

Mae partneriaeth effeithlon yn gynhenid i lwyddiant y Cynllun Rheoli Cyrchfan ac felly bydd parhau i'w gyflenwi yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

Adolygu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan

Mae Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent wedi ymgysylltu gyda rhanddeiliaid lleol ar draws y sector i adolygu'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan blaenorol, rhoi gwybodaeth ar gyfer y blaenoriaethau newydd a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer 2016/19 (Atodiad 1). Bydd y camau gweithredu o fewn y Cynllun Gweithredu Cyrchfan yn cefnogi cyflenwi gweledigaeth cyrchfan.

Ni all unrhyw un sefydliad neu unigolyn gyflenwi'r holl rannau yn y cynllun fodd bynnag drwy gydweithio gellir sicrhau'r profiad gorau posibl gyda ffocws ar ymwelwyr.



POLISI A PHARTNERIAETH

Cyd-destun Cenedlaethol

Partneriaeth ar gyfer Twf 2013 – 2020:

Strategaeth Llywodraeth Cymru yn

canolbwyntio ar bum maes allweddol:

Hyrwyddo, Datblygu Cynnyrch, Pobl,

Perfformiad Proffidiol ac Adeiladu Lle. Yr uchelgais yw:

“Tyfu enillion twristiaeth yng Nghymru gan 10% neu fwy erbyn 2020”.

Datblygu'r Economi Ymwelwyr: Siarter ar gyfer Cymru 2009: Nodi rôl Awdurdodau

Lleol wrth sefydlu Partneriaethau Rheoli

Cyrchfan a chyflenwi Cynlluniau Rheoli

Cyrchfan Lleol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) 2015: Mae'r gyfraith yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae'n gosod dyletswydd statudol ar gyrrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio tuag at saith nod llesiant cenedlaethol.

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru Gydnerth
3. Cymru Iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal

5. Cymru o gymunedau cydlynol
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cyd-destun Rhanbarthol

Ers ysgrifennu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan diweddaraf bu llawer o newidiadau wrth gyflenwi twristiaeth yn rhanbarthol. Cafodd y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol eu diddymu, gyda Croeso Cymru yn sefydlu pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn fewnol.

Tîm Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru:

Mae gan y tîm ddau Reolwr Ymgysylltu Rhanbarthol bob un yn gyfrifol am ymgysylltu ar sail un i un gydag awdurdodau lleol. Mae'r Tîm Rhanbarthol hefyd yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer Fforwm Twristiaeth De Cymru.

Fforwm Twristiaeth De Cymru: Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat ac awdurdodau lleol o bob ardal ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae cylch gorchwyl Fforwm Twristiaeth De Cymru yn cynnwys cyfnewid sylwadau a syniadau perthnasol ar faterion twristiaeth, a dull ar gyfer cydweithio

effeithlon rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth.

Grŵp Rheoli Cyrchfan De Ddwyrain

Cymru: Mae'r grŵp yn cynnwys uwch reolwyr awdurdodau lleol a phenaethiaid gwasanaethau sydd â'r brif nod o ddarparu cefnogaeth strategol a phroffesiynol i SEWDER a thrwy SEWDER i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru a Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Fforwm Twristiaeth De Ddwyrain Cymru a Croeso Cymru ar faterion Rheoli Cyrchfan sy'n effeithio ar y Rhanbarth.

Grŵp Gweithredu Cyrchfan De

Ddwyrain Cymru: Mae'r grŵp yn cynnwys Swyddogion Twristiaeth sy'n sicrhau y caiff y tasgau a ddynodwyd gan Grŵp Rheoli Cyrchfan De Ddwyrain Cymru eu hymchwilio a'u cyflenwi a'u cysylltu'n uniongyrchol gyda Phartneriaethau Rheoli Cyrchfan Lleol.

POLISI A PHARTNERIAETH

Cyd-destun Lleol

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent: Sefydlwyd ym mis Ebrill 2016, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd tuag at baratoi Cynllun Llesiant ar gyfer yr ardal. Bydd twristiaeth yn cynnig cyfle ym Mlaenau Gwent i helpu'r ardal i gyfrannu tuag at ddyfodol hirdymor yr ardal.

Mae **Rheoli Cychfan** yn rhan o Uned Datblygu Economaidd yr Adran Adfywio, o fewn Cyfarwyddiaeth Amgylchedd ac Adfywio Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent. Mae hyn yn galluogi cysylltiadau agos gyda chyfleoedd datblygu busnesau a phrosiectau.

Strategaeth Twristiaeth Blaenau Gwent 2010 - 2015: Daeth y strategaeth i ben ac mae angen cynhyrchu dogfen newydd, gan adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma ac edrych ymlaen at y cyfleoedd newydd sy'n bodoli. Mae dymuniad i sefydlu Fforwm Twristiaeth ym Mlaenau Gwent, gan roi llais cryfach i fusnesau a allai hefyd gyfrannu at Fforwm Twristiaeth De Cymru.

01 - Amgueddfa Grŵp Gweithredu Treftadaeth Blaenau

02 - Calon Ffwrnais, Glynebwy

03 - Taith Iau o Gymru





RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT - EDRYCH YN ÔL

Adolygu Cynllun Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent 2014-16

Sicrhawyd nifer o lwyddiannau sylweddol ers cynhyrchu Cynllun Rheoli Cyrchfan 2014/16, yn cynnwys:

Prosiect	Disgrifiad
Cilfan Pwynt Uchaf	Fel rhan o wneud heol Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol, cynhwyswyd ardal cilfan gorffwys yn y Pwynt Uchaf (rhwng Glynebwy a Brynmawr). Datblygwyd prosiect dehongli ategol i annog ymchwilwyr i ymchwilio'r ardal, trefi a chyfleusterau lleol. Sicrhawyd cyllid o £12k drwy RTEF i gyflenwi'r prosiect.
Marchnata'r Gyrchfan	Cafodd set lawn o ddelweddau newydd yn cynnwys pob un o'r tri chwm eu cwblhau. Hefyd mae taflenni gyda brand ledled Blaenau Gwent gyda thaflenni Blaenau Gwent arnynt yn sicrhau y caiff yr holl ymwelwyr wybodaeth dda drwy gydol eu hymweliad â'r ardal. Mae'r gweithgaredd yn cefnogi'r gweithgaredd marchnata a ddatblygwyd drwy Grŵp Marchnata'r Cymoedd, sy'n cynnwys datblygiad www.thevalleys.co.uk
Cysylltiadau Trafnidiaeth	Gwnaed gwaith helaeth i wella'r rhwydwaith yn ystod cyfnod y cynllun, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r estyniad rheilffordd i Dref Glynebwy, cwblhau Llwybr Cebi Glynebwy a chwblhau gwneud heol Tredegar i Frynmawr yn ddeuol.

01 - A465 Man Gorffwys rhwng Glynebwy a Brynmawr

02 - Roseland, Tredegar



ADOLYGU TUEDDIADAU DATA LLEOL

Mae'r awdurdod yn monitro cyfaint a gwerth twristiaeth yn barhaus ac yn defnyddio Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM) i gyflawni hyn. Mae'r model yn rhoi sylfaen dangosol cadarn ar gyfer monitro tueddiadau ar sail fisol a blyneddol. Caiff ei ddefnyddio gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru a gellir felly ei ddefnyddio i fesur tueddiadau, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Dengys adroddiad 2015 i Blaenau Gwent dderbyn 675,530 o ymwelwyr a dreuliodd gyfanswm o 864,250 diwrnod yn yr ardal. Daeth yr ymweliadau hyn â £43.2m i'r economi lleol a chefnogi cyfwerth â 582 o swyddi llawn-amser. Ers y Cynllun Rheoli Cyrchfan diwethaf gwelodd yr ardal dwf o 7.2% mewn ymwelwyr yn cyfrannu 10.7% yn ychwanegol i'r economi lleol gyda chynnydd o 8.8% yn nifer y rhai a gyflogir yn uniongyrchol mewn twristiaeth.

Mae'r cynnydd mewn ymwelwyr preswyl (9.4%) yn uwch nag mewn ymwelwyr dydd (6.6%). Dengys dadansoddiad pellach o ymwelwyr preswyl fod y nifer sy'n aros gyda ffrindiau a pherthnasau wedi parhau'n gyson ond bu gostyngiad

mewn llety heb wasanaeth. Yn groes i hyn, bu cynnydd mawr yn y rhai yn aros mewn llety â gwasanaeth gyda chynnydd o 85.2% mewn nifer ymwelwyr. Mae'r data ar gyfer llety â gwasanaeth yn dangos i 27,190 o ymwelwyr dreulio cyfanswm o 52,570 o ddyddiau yn yr ardal. Daeth yr ymweliadau hyn â £7,191,000 i'r economi lleol a chefnogi cyfwerth â 100 o swyddi amser llawn yn uniongyrchol.

Mae cymhariaeth ffafriol ym mherfformiad Blaenau Gwent dros y 3 blynedd ddiwethaf o gymharu â rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Mae gwariant yn y sector llety wedi codi gan 73.5% yn lleol o gymharu â 26% ar draws y rhanbarth. Roedd gwariant ar fwyd a diod yn 8.9% ym Mlaenau Gwent o gymharu gyda 9% yn Ne Ddwyrain

Cymru a hamdden yn 7.2% o gymharu â 9% yn rhanbarthol. Dim ond gan 5.1% y cynyddodd siopa o gymharu â 8% yn rhanbarthol a thrafnidiaeth gan 7.6% o gymharu gyda 9%. Mae'r gwariant gan ymwelwyr mewn llety â gwasanaeth wedi codi gan 85.5% yn lleol ar 25% ar draws y rhanbarth, gwariodd ymwelwyr dydd 6.6% yn fwy yn lleol ond 9% yn fwy ar draws y rhanbarth.

Mae'r data yn cadarnhau gwerth twristiaeth i ardaloedd fel ein hardal ni a pham ei bod mor bwysig parhau i dyfu a gwella ar y cynnig lleol.

CYRCHFAN BLAENAU GWENT - DADANSODDIAD CGCB

Sylweddolwn fod Blaenau Gwent yn ardal ddaearyddol fach iawn gyda grŵp bach ond arwyddocaol o fusnesau twristiaeth. Felly mae angen i gynyddu eu potensial twristiaeth i'r eithaf o fewn ein ffin ond hefyd edrych am gyfleoedd ehangach sy'n bodoli.

CRYFDERAU	GWENDIDAU
- Tirwedd unigryw - Rhwydwaith trafnidiaeth - mae'r gwaith o wneud yr A465 yn ffordd ddeuol bron â'i orffen gyda chysylltiadau da i ganolbarth Lloegr, yr M4 a Gorllewin Cymru. - Cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus da yn cynnwys cysylltiadau rheilffyrdd i dref Glynebwy a Llanhilledd. - Er yn gyfyngedig - mae'r llety sydd ar gael o safon uchel. - Cydbwysedd ymwelwyr busnes ac arhosiad hamdden. - Llwybrau cerdded a seiclo lleol. - Atyniadau allweddol - Parc yr Ŵyl, cofeb Guardian, Tŷ a Pharc Bedwellte, Parc Bryn Bach - Lleoliadau twristiaeth busnes neilltuol. - Gwyliau cerdd. - Digwyddiadau ac atyniadau a gaiff eu harwain gan y sector preifat a'r trydydd sector. - Safleoedd treftadaeth ac amgueddfeydd. - Twristiaeth hanes teulu - cysylltiadau i Archifdy Gwent. - Cyfleoedd hyfforddiant a ddatblygwyd gan bartneriaid trydydd sector.	- Amharodrwydd rhai busnesau i fuddsoddi yn eu cynnyrch - Dim atyniadau mawr talu am fynediad - Dirywiad mewn canol trefi. - Stoc gyfyngedig o lety. - Ystod gyfyngedig o lety. - Gostyngiad mewn cyllid. - Trafnidiaeth gyhoeddus tu allan i oriau brig (gyda'r nos a phen- wythnosau). - Cynnig lletygarwch min nos. - Dim cymdeithas neu rwydwaith twristiaeth. - Dim marchnata twristiaeth busnes cydlynol. - Dim llawer o farchnata ar y cyd rhwng trefi. - Ymgysylltiad rhanddeiliaid gyda RhCP a Llysgenhadon Twristiaeth - Diffyg Llysgenhadon Twristiaeth gweithgar. - Balchder dinesig y gymuned mewn risg.
CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Mae twristiaeth yn un o'r naw sector allweddol ar gyfer twf a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru. - Buddsoddiad allanol e.e. Cynllun Treflun Treftadaeth Tredegar. - Datblygiad Metro De Cymru. - Datblygiad Cylchffordd Cymru. - Datblygiad sector twristiaeth a lletygarwch wedi cysylltu gyda Chylchffordd Cymru. - Agosatrwydd a chysylltiadau gyda Chaerdydd, Safle Treftadaeth Byd Blaenafon, Bannau Brycheiniog, Parc Beiciau Cymru. - Datblygu busnesau llety newydd - Llwybrau traws-ffin - Digwyddiadau mawr - Ehangu'r sector gweithgaredd - Blynyddoedd Thema Croeso Cymru - Asiantaethau archebu ar-lein - Adolygiadau a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.	- Perceptions of the destination. - Available public funding opportunities. - Anti-social behaviour e.g. fly tipping, off road bikes. - Failure of Circuit of Wales materialising. - Lack of private sector confidence in the economy/lack of investment. - Changes in Welsh Government's Tourism Investment Support Scheme.





RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT - YN Y DYFODOL

Gweledigaeth Cyrchfan Blaenau Gwent - “Caiff ymwelwyr eu denu i gyrchfan lle mae busnesau egniol yn cydweithio i roi croeso cynnes i bawb sy'n ymchwilio'r dreftadaeth gyfoethog, tirwedd dramatig, trefi diddorol a dewis eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd gan Blaenau Gwent i'w cynnig”.

Meysydd Blaenoriaeth

Rydym wedi dynodi'r deg ardal allweddol fydd yn gwneud Blaenau Gwent yn gyrchfan fwy deniadol i ymwelwyr a mwy proffidiol i fusnesau lleol. Mae'r camau gweithredu a gynhwysir o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan yn alinio gyda'r meysydd blaenoriaeth a ddynodwyd ac fe'u diffinnir islaw;

Datblygu Busnes

I sicrhau economi twristiaeth ffyniannus ac egniol, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda busnesau unigol i gynyddu eu potensial i'r eithaf. Mae gan Flaenau Gwent, ynghyd ag asiantaethau eraill, rôl allweddol i gefnogi'r rhai sydd eisiau tyfu a chynyddu eu proffidioldeb. Yn ogystal ag anghenion datblygu penodol pob busnes, mae llawer o ffyrdd y

gallwn gydweithio i wella ein perfformiad unigol ac un y gyrchfan. Mae rhannu gwybodaeth, ennill sgiliau newydd ac uno i ffurfio ffordd gydlynol ymlaen yn bwysig ac yn cyfoethogi'r cynnig gyrchfan.

Twristiaeth Busnes

Cyfarfodydd, Cymhellion, Cynadleddau a Digwyddiadau Bu sector twristiaeth busnes eginol ym Mlaenau Gwent am nifer o flynyddoedd ond ni chafodd ei botensial ei wireddu. Daeth datblygiad diweddar â nifer o gyfleusterau ynghyd sydd â gwell dealltwriaeth o'r farchnad a dymuniad i fanteisio i'r eithaf ar yr incwm y gall ei gynhyrchu. Mae gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth yn rhoi'r llwyfan delfrydol i goleddu'n llawn y cyfleoedd sy'n bodoli.

Herio a Newid Canfyddiadau

Caiff y canfyddiad o'r ardal yn aml ei dominyddu gan bortreadau diwydiannol hanesyddol a'r dirywiad dilynol drwy'r cyfnod ôl-ddiwydiannol, ond pan mae ymwelwyr yn cyrraedd mae harddwch yr ardal a'r croeso a geir yn y cymoedd yn gwneud argraff arnynt.

Ni ellir newid y canfyddiadau hun ar unwaith ond mae'n rhaid i ni barhau i adeiladu ar yr agweddau cadarnhaol ac uno i hysbysu cynulleidfaoedd newydd pam y dylent ymweld â'r Cymoedd, gan fanteisio ar ein hagosatrwydd at Bannau Brycheiniog.

RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT - YN Y DYFODOL

Trafnidiaeth a Datblygu Llwybrau

Trafnidiaeth: Mae angen parhau gyda gwelliannau i'n cysylltiadau, gyda gwaith i gynyddu gwasanaethau ar reilffordd Cwm Ebwy a chwblhau gwneud yr A465 yn ffordd ddeuol. Mae'n rhaid i ni hefyd gysylltu'r rhain gyda llwybrau cerdded a seiclo.

Llwybrau: Mae'r llwybrau presennol yn parhau i fod yn boblogaidd fodd bynnag mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar gyfleoedd newydd i wella'r cynnig i farchnadoedd arbenigol a chynyddu hygyrchedd, drwy ddatblygu llwybrau newydd a hirach.

Diwylliant a threftadaeth

Mae'n debyg mai treftadaeth a diwylliant yr ardal yw'r prif reswm pam fod ymwelwyr yn dod i'r ardal. Mae gennym hanes arbennig a balch, tirwedd sy'n dweud stori'r setlwyr cynharaf yn yr ardal a chyfoeth o safleoedd hanesyddol, amgueddfeydd ac archifau sy'n denu ymwelwyr yn ddyddiol. Mae'n hanfodol ein bod yn diogelu, cynnal a manteisio i'r eithaf ar yr ased gwerthfawr yma.

Ymchwil a dadansoddiad

Er mwyn gwella ein perfformiad mae'n hanfodol ein bod yn mesur a monitro ein llwyddiannau yn barhaus. I wneud hyn, mae'n hanfodol casglu data'n barhaus i gael gwybodaeth ansoddol gywir. Mae hefyd yn bwysig canfod beth mae ein

cwsmeriaid yn ei deimlo, gan mai dyma'r ffordd orau i wella ein gwasanaeth ac, yn eu tro, y canlyniadau. Mae Strategaeth Twristiaeth newydd yn hanfodol ar gyfer datblygiad strategol y gyrchfan.

Digwyddiadau

Mae gwerth digwyddiadau i'r sector twristiaeth yn gynyddol amlwg. Mae llawer o ddigwyddiadau lleol yn tyfu ac felly hefyd y gefnogaeth sydd ei hangen i'w rhedeg yn ddiogel a llwyddiannus. Mae angen ffordd glir ymlaen ar gyfer marchnata, hyfforddiant, datblygu a chynaliadwyedd ariannol.

Gweithio Partneriaeth

Mae Blaenau Gwent yn un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Er bod gan hyn rhai anfanteision, mae ganddo hefyd lawer o fanteision. Cydnabyddir yn gyffredinol ein bod yn cyflawni mwy drwy gydweithio na drwy weithio yn ynysig. Gall gwybodaeth well o'r sector, datblygu cadwyni cyflenwi lleol a ffurfio partneriaethau cydlynol a chlir gynyddu'r hyn a enilliwn o ymwelwyr.

Canol Trefi

Gan drin yr anawsterau a wynebier gan ein canol trefi, mae'n dasg llawer ehangach nag y gellir ei gyflawni gan y Cynllun Rheoli Cyrchfan yma; fodd bynnag mae'n rhaid i ni ymdrechu i gynnal croeso ffyniannus ac egniol i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Cylchffordd Cymru

Bydd y prosiect £375m yma yn llawer mwy na chylchffordd yn unig; bydd yn gyrchfan ynddo'i hun. Yn ogystal â'r trac bydd gwestai, canolfannau brand, cyfleusterau hamdden eraill a digwyddiadau fydd yn denu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Mae'n hanfodol fod gennym weithlu hyfforddedig a chyfleusterau cyfeillgar i rasio yn barod i groesawu ymwelwyr pan fydd y gylchffordd yn agor. Yn yr un modd mae angen i ni sicrhau y gall y gyrchfan yn ei chyfanrwydd fanteisio o gyfleoedd mewnfuddsoddi mor sylweddol â'r nifer cysylltiedig o ymwelwyr.

01 - Celfwaith ar Lwybr Homfray

02 - Cloc Tref Tredegar

03 - Sgwâr y Farchnad

04 - Triathlon, Parc Bryn Bach





CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT 2016 -2019

Cynlluniau Gweithredu Cynllun Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent

Cafodd y camau gweithredu eu rhannu'n adrannau sy'n cyfeirio at y rhai a ddynodwyd yn Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf Llywodraeth Cymru: hyrwyddo'r brand, datblygu cynnyrch, datblygu pobl, perfformiad proffidiol ac adeiladu lle.

Blaenori-aeth	Disgrifiad o'r Flaenoriaeth	Camau Gweithredu	Arweinydd/ Partneriaid	Blaenoriaeth/ Amserlen
1.0 Hyrwyddo'r Brand	Hyrwyddo a marchnata brand neilltuol ar gyfer Blaenau Gwent, yn canolbwyntio ar dreftadaeth, tirwedd. Targedu marchnadoedd presennol a newydd gyda photensial twf.	1.1 Datblygu cynllun marchnata Rheoli Cyrchfan cynhwysfawr a gweithredu'r blaenoriaethau a gytunwyd, yn defnyddio ystod o gyfryngau traddodiadol a digidol, yn hyrwyddo Blaenau Gwent ac yn newid canfyddiadau. Alinio gweithgaredd marchnata gyda blynyddoedd thema Croeso Cymru fel sy'n addas e.e. Chwedlau.	CBSBG (RhC/Cyf)	Canolig/Blynyddol 17/18
		1.2 Sicrhau aelodaeth a chysylltiadau gyda grwpiau/cyrff rhanbarthol a chenedlaethol fel sy'n addas i sicrhau y caiff yr Awdurdod a busnesau lleol eu cynrychioli'n addas e.e. Masnach Deithio Prifddinas-Ranbarth (CRTT), Partneriaeth Atyniadau De Cymru (SWAP).	CBSBG (RhC)	Uchel/Blynyddol
		1.3 Cydllynu rhanddeiliaid a datblygu cynnig cyrchfan ar-lein cynhwysfawr drwy wefan Y Cymoedd a CBSBG.	CBSBG (RhC)	Uchel/Blynyddol
		1.4 Annog cydweithio a chyfleoedd traws-hyrwyddo ymysg clystyrau busnes e.e. canol trefi, twristiaeth busnes, atyniadau twristiaeth.	CBSBG (RhC)	Canolig/Parhaus
		1.5 Datblygu a chynnal ymweliadau cyfarwyddo rheolaidd ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan alluogi'r sector twristiaeth i fod yn fwy fwybodus a chynyddu nifer ymwelwyr.	CBSBG (RhC)	Uchel/Chwarterol
		1.6 Cadw archif delweddau, yn cynnwys pytau ffilm, ar gyfer cynnyrch Blaenau Gwent yn cynnwys twristiaeth busnes, digwyddiadau a chynnyrch newydd.	CBSBG (RhC)	Isel/Blynyddol
		1.7 Cydllynu cyflenwi rhaglen digwyddiadau sy'n targedu grwpiau a ddynodwyd yn cynnwys gwyliau cerdd, dyddiau hen gerbydau, gwyliau cerdded, celf a diwylliant.	CBSBG – RhC/ Cyf Trefnwyr digwyddiadau	Canolig/Blynyddol

CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT 2016 -2019

Blaenoriaeth	Disgrifiad Blaenoriaeth	Camau Gweithredu	Arweinydd/ Partneriaid	Blaenoriaeth/ Amserlen
2.0 Datblygu Cynnyrch	Ysgogi buddsoddiad mewn cynnyrch a digwyddiadau ansawdd uchel, sy'n hybu enw da.	2.1 Datblygu Strategaeth Datblygu Twristiaeth wedi'i diweddaru ar gyfer Blaenau Gwent.	CBSBG (RhC)	Uchel/3 blynedd
	Gweithio gyda phartneriaid sydd â hanes o lwyddiant a photensial twf.	2.2 Sicrhau fod mesurau a threfniadau addas yn eu lle i gasglu, cofnodi a monitro'r data angenrheidiol yn cynnwys camerâu nifer ymwelwyr a STEAM, fydd yn hysbysu blaenoriaethau lleol.	CBSBG (RhC)	Uchel/Parhaus
	Blaenoriaethu buddsoddiad y Llywodraeth mewn modd strategol.	2.3 Cynnal ymgysylltu busnes rhagweithiol gyda'r sector, yn cynnwys mewnfuddsoddiad i annog twf a datblygu busnes yn canolbwyntio ar lety ac atyniadau allweddol ar draws y gyrchfan.	CBSBG Adfywio Datblygwyr sector preifat Busnesau llety Aneurin Leisure Busnes Cymru	Uchel/Parhaus
		2.4 Datblygu a chyflenwi cynlluniau adfywio i gryfhau amgylchedd busnes, corfforol a chymdeithasol y gyrchfan e.e. Cynllun Treftadaeth Treflun Tredegar, Cynllun Datblygu Lleol.	CBSBG – Adfywio, Busnesau, Trydydd sector, Bwrdd Rhaglen Lleol	Uchel/Blynyddol
		2.5 Cydwethio i sefydlu a chryfhau'r cynnig Twristiaeth Busnes o fewn yr Awdurdod Lleol.	CBSBG (RhC) Rheolwyr Cyfleusterau e.e. GO, Sefydliad Llanhilledd, BH&P	Canolig
		2.6 Cyflenwi Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Aneurin Leisure; gwella darpariaeth hamdden lleol ac ymwelwyr, yn cynnwys llyfrgelloedd, Tŷ a Pharc Bedwellte, Parc Bryn Bach a darpariaeth canolfannau hamdden.	Aneurin Leisure	
		2.7 Dynodi cyfleoedd i gyfoethogi'r cynnig cynnyrch lleol yn cynnwys datblygu a gwella llwybrau cerdded a seiclo, cyflwyno digwyddiadau a gwyliau blynyddol. Cydwethio gyda phartneriaid i gyflenwi gweithgareddau a ddynodwyd.	CBSBG (RhC) Swyddog CBSBG Sustrans Network Rail Tirfeddianwyr CFC Aneurin Leisure	Uchel/Parhaus

Blaenoriaeth	Disgrifiad Blaenoriaeth	Camau Gweithredu	Arweinydd/ Partneriaid	Blaenoriaeth/ Amserlen
3.0 Datblygu Pobl	Hyfforddi ein pobl fel y gallant ffynnu yn y sector twristiaeth; Rhoi'r sgiliau hynny ar waith i wella bodlonrwydd cwsmeriaid a'r profiad cyffredinol. Newid canfyddiadau o dwristiaeth fel dewis gyrfa ansawdd uchel.	3.1 Cynnal archwiliad o'r sector twristiaeth a lletygarwch i benderfynu ar yr anghenion hyfforddiant presennol a newydd.	CBSBG (RhC)	Canolig/Blwyddyn 2
		3.2 Ymgysylltu gyda darpar fewnfuddsoddiad i benderfynu ar anghenion cyflogaeth a hyfforddiant i sicrhau y gall preswylwyr lleol fanteisio e.e. Cylchffordd Cymru.	CBSBG - Adfywio	Canolig/Parhaus
		3.3 Datblygu a gweithredu pecyn hyfforddiant a gytunwyd i ddiwallu angen a ddynodwyd (cysylltiad gyda 3.1 a 3.2). Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ar draws y sector i annog cyfleoedd traws-hyrwyddo.	CBSBG (RhC) Coleg Gwent Partneriaid 3ydd Sector	Canolig / Blwyddyn 2 & 3
		3.4 Cyflenwi rhaglen a gytunwyd o hyfforddiant gydag achrediad i gefnogi anghenion presennol a newydd o fewn y sector lletygarwch, gan dargedu'r di-waith hirdymor.	CF VARTE	Canolig / Blwyddyn 1
		3.5 Sefydlu rhaglen ddysgu i annog mwy o ymgysylltu mewn treftadaeth leol.	Archifau Gwent Amgueddfeydd Tŷ a Pharc Bedwellte	Canolig - Isel/ Blwyddyn 2
		3.6 Datblygu a thyfu fforymau priodol, gan annog cydweithio, rhannu adnoddau, yn cynnwys fforymau busnes canol tref.	CBSBG – Adfywio Rhanddeiliaid	
		3.7 Sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddar gan Lysgenhadon a thywyswyr Bathodyn Glas/Gwyrdd ac yn gweithredu yn yr ardal, gan recriwtio gwirfoddol ychwanegol fel bo angen.	CBSBG (RhC)	Canolig / Blwyddyn 2 & 3
		3.8 Datblygu adnodd stiwardiaid gwirfoddol i gefnogi cyflenwi digwyddiadau ym Mlaenau Gwent.	Cymunedau yn Gyntaf/GAVO	Uchel/Parhaus
		3.9 Sefydlu Blaenau Gwent fel "Cyrchfan Cyfeillgar i Dementia".	Blaenau Gwent Cymuned Cyfeillgar i Dementia	Isel/Parhaus
		3.10 Dynodi a gweithredu dulliau ar gyfer i bartneriaid gynyddu i'r eithaf y defnydd o'r hyrwyddiadau digidol/ar-lein sydd ar gael yn cynnwys: cyfryngau cymdeithasol, pecyn cymorth (cyfleoedd marchnata - Y Cymoedd).	CBSBG (RhC)	Uchel/Blwyddyn 2



01 - Saxon yn perfformio yng Ngŵyl Steelhouse

CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT 2016 -2019

Blaenoriaeth	Disgrifiad Blaenoriaeth	Camau Gweithredu	Arweinydd/ Partneriaid	Blaenoriaeth/ Amserlen
4.0 Perfformiad Proffidiol	Meithrin gallu'r diwydiant i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gyrraedd a dylanwadu ar gwsmeriaid posibl; Cefnogi proffidioldeb uwch mewn busnesau twristiaeth drwy ddulliau megis rheoli cynnyrch.	4.1 Annog llety ac atyniadau ymwelwyr i gasglu a darparu data perthnasol, gan hysbysu gwerth economaidd y sector.	CBSBG (RhC) Aneurin Leisure Twristiaeth Busnes	Blynnyddol
		4.2 Cynyddu cyfranogiad ar draws y sector mewn ystod o arolygon i ennill gwell dealltwriaeth o berfformiad a dynodi cyfleoedd datblygu.	CBSBG (RhC) Busnesau Cyrchfan	Blynnyddol
		4.3 Determine the need and establish a Blaenau Gwent Tourism Association, encouraging networking and best practice across the sector.	CBSBG (RhC)	Isel/Blwyddyn 2 & 3
		4.4 Defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Busnes Cymdeithasol Cymru i gefnogi datblygiad a thwf busnesau cymdeithasol sy'n ddarparwyr twristiaeth ym Mlaenau Gwent.	Busnes Cymdeithasol Cymru Busnes Cymdeithasol Cymru	Parhaus
		4.5 Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi busnesau lleol yn cynnwys Busnes Cymru a Ffederasiwn Busnesau Bach.	Sefydliadau allanol CBSBG - Adfywio	Parhaus

01 - Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy

02 - Parc Bryn Bach, Tredegar



CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN BLAENAU GWENT 2016 -2019

Blaenoriaeth	Disgrifiad Blaenoriaeth	Camau Gweithredu	Arweinydd/ Partneriaid	Blaenoriaeth/ Amserlen
5.0 Place Building	Datblygu cyrchfannau y mae pobl eisiau ymweld â nhw a'u hargymell; Darparu cyfleoedd i gymunedau lleol i gyflenwi profiadau cofiadwy i ymwelwyr; Hyrwyddo gwell cysylltiadau trafnidiaeth ar awyr, môr, ffordd a rheilffordd.	5.1 Gwneud canol trefi yn fwy bywiog a hyfiw yn cynnwys; Comisiynu ymgynghorwyr i gefnogi datblygiad strategaeth canol tref i fod yn sail i'n hymagwedd at wneud canol trefi yn fwy bywiog a hwylustod cysylltu gyda'r gymuned o amgylch. Gweithredu gweithgaredd yn gysylltiedig â'r strategaeth a gynhyrchir. Sefydlu rhaglen cynnal a chadw canol trefi i fod yn sail i safonau gofynnol, yn cynnwys glanhau trylwyr yn flynyddol.	CBSBG – Adfywio Busnesau, y gymuned, sector cyhoeddus a'r trydydd sector CBSBG – Gwasanaethau Amgylcheddol	Uchel/Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 & 3 Uchel/Blwyddyn 1 Parhaus
		5.2 Cynnal amgylchedd glân a rhydd o sbwriel ar draws y gyrchfan.	CBSBG Gwasanaethau Amgylcheddol	Uchel/Blwyddyn 1 Parhaus
		5.3 Sicrhau y caiff seilwaith a chyfleusterau allweddol y fwrdeisdref eu cynnal a'u cadw a'u bod yn addas i'r diben, e.e. cyfleusterau cyhoeddus.	CBSBG Cynghorau Tref Trydydd Sector	
		5.4 Datblygu a gwella'r ddarpariaeth digwyddiadau ar draws y fwrdeisdref, yn cynnwys digwyddiadau a gwyliau blynyddol.	Arweinwyr digwyddiadau yn cynnwys fforymau busnes a phartneriaethau CBSBG (RhC)	Canolig / Parhaus
		5.5 Gwella cysylltedd trafnidiaeth ar draws yr awdurdod lleol, gwella hwylustod a dewis mynediad i atyniadau cyrchfan, yn cynnwys: deuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd, seilwaith metro a rhwydweitho seiclo rhanbarthol.	Llywodraeth Cymru Gwasanaethau Technegol	Uchel / Parhaus
		5.6 Cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd sy'n deillio o'n cryfderau a ddynodwyd, yn cynnwys agosatrwydd at Fannau Brycheiniog, cefn gwlad agored, cartref y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.	CBSBG (RhC)	Canolig / Parhaus

ATODIADAU

Atodiad 1

a. Rhestr Ymgygoreion

- 1. Adrannau Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
- 2. Partneriaid Cyrchfan Blaenau Gwent
- 3. Aneurin Leisure
- 4. Fforwm Busnes Blaenau Gwent
- 5. Busnes Cymdeithasol Cymru
- 6. Busnesau Twristiaeth a restrir islaw;

b. Rhestr darparwyr llety:

Rhif	Busnes	Tref	Dynodiad	Ystafelloedd / Unedau / Lleiniau
1	Premier Inn Glynebwy	Glynebwy	Gwesty Cyllideb	44
2	Tŷ Llety Glynebwy	Glynebwy	Tŷ Llety	11
3	Tŷ Llety Capel Soar	Glynebwy	Tŷ Llety	13
4	Roseland	Tredeggar	Gwely a Brecwast	4
5	The Cambrian	Tredeggar	Tafarn gydag ystafelloedd	6
6	The Castle Inn	Glynebwy	Tafarn gydag ystafelloedd	3
7	The Coach & Horses	Tredeggar	Tafarn gydag ystafelloedd	3
8	The Kings Arms	Glynebwy	Tafarn gydag ystafelloedd	5
9	Gwesty Llanhiledd	Abertillery	Tafarn gydag ystafelloedd	2
10	The Nags Head	Tredeggar	Tafarn gydag ystafelloedd	2
11	The Red Lion	Tredeggar	Tafarn gydag ystafelloedd	10
12	The Ambala	Glynebwy	Bwyty gydag ystafelloedd	9
13	Bwthyn Aderyn Bach	Blaenau	Hunanddarpar	1
14	Russinda	Blaenau	Hunanddarpar	1
15	Parc Bryn Bach	Tredeggar	Safle gwersyll	60





ATODIADAU

c. Rhestr Gweithgareddau

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Parc Bryn Bach	Tredeggar	Canolfan Gweithgaredd Antur
2	Parc Bryn Bach	Tredeggar	Seiclo - BMX, MBX, hamdden a chylchffordd
3	Parc Bryn Bach	Tredeggar	Golff
4	Tredeggar a Rhymni	Tredeggar	Golff
5	Clwb Golff Gorllewin Mynwy	Nantyglo	Golff
6	Canolfan Chwaraeon Abertyleri	Abertyleri	Canolfan Chwaraeon
7	Canolfan Chwaraeon Glynebwy	Glynebwy	Canolfan Chwaraeon
8	Canolfan Chwaraeon Tredeggar	Tredeggar	Canolfan Chwaraeon
9	Supertiwb	Glynebwy	Llethr tobogan

d. Rhestr Atyniadau

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Meini Coffa Aneurin Bevan	Glynebwy	Treftadaeth
2	Tŷ a Pharc Bedwellte	Tredeggar	Treftadaeth
3	Noddfa Tylluanod Parc yr Ŵyl	Glynebwy	Anifeiliaid
4	Siopa Parc yr Ŵyl	Glynebwy	Manwerthu
5	Guardian a Tŷ Ebwy Fach	Abertyleri	Heritage

01 - Parc Bryn Bach, Tredeggar

02 - Siopa Parc yr Ŵyl, Glynebwy



e. Rhestr Safleoedd Twristiaeth Busnes

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Tŷ Bedwellte	Tredegar	Safle Treftadaeth
2	Theatr Beaufort	Glynebwy	Theatr
3	Sefydliad Glynebwy	Glynebwy	Sefydliad
4	Swyddfeydd Cyffredinol	Glynebwy	Safle Treftadaeth
5	Sefydliad Llanhilledd	Abertyleri	Sefydliad
6	Y Met	Abertyleri	Theatr
7	Kids r Us	Tredegar	Theatr

f. Rhestr Safleoedd Treftadaeth

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Mynwent Colera Cefn Golau	Tredegar	Cofeb Restredig
2	Tai Crwn Nantyglo	Nantyglo	Rhestredig Gradd II*
3	Gwaith Haearn Sirhywi	Tredegar	Cofeb Restredig
4	Eglwys Illtyd Sant	Abertyleri	Rhestredig Gradd II*
5	Cloc Tref Tredegar	Tredegar	Rhestredig Gradd II*

g. Rhestr Amgueddfeydd ac Archifdai

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Amgueddfa Hanes Lleol Abertyleri a'r Cylch	Abertyleri	Amgueddfa
2	Canolfan Ymwelwyr Siartwyr Blaenau	Blaenau	Canolfan Dreftadaeth
3	Amgueddfa Grŵp Gweithredu Treftadaeth Blaenau	Blaenau	Amgueddfa
4	Amgueddfa Hanes Lleol Brynmawr a'r Cylch	Brynmawr	Amgueddfa
5	Amgueddfa Gweithfeydd Glynebwy	Glynebwy	Amgueddfa
6	Archifdy Gwent	Glynebwy	Archifdy
7	Amgueddfa Hanes Lleol Tredegar a'r Cylch	Tredegar	Amgueddfa



h. Rhestr Parciau a Safleoedd Cefn Gwlad

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Parc Bedwellte	Tredeggar	Parc
2	Pwll Cwmcelyn	Blaenau	Llyn
3	Llynoedd Cwmtyleri	Abertyleri	Llyn
4	Parc yr Ŵyl	Glynebwy	Parc
5	Parc Bryn Bach	Tredeggar	Parc Gwledig
6	Gwarchodfa Natur Cwm Tawel	Glynebwy	Gwarchodfa Natur
7	Pwll Sant Iago	Tredeggar	Llyn

i. Rhestr Theatrau a Sinema

Rhif	Safle	Tref	Disgrifiad
1	Theatr a Dawnsfa Beaufort	Glynebwy	Theatr
2	Sinema Neuadd y Farchnad	Brynmawr	Sinema
3	Y Metropole	Abertyleri	Theatr
4	Theatr Fach Tredeggar	Tredeggar	Theatr



01 - Tai Crwn Nantyglo

02 - Y Met, Abertyleri

03 - Pwll Cwmcelyn, Blaenau

04 - Amgueddfa Hanes Lleol Brynmawr a'r Cylch

05 - Theatr a Dawnsfa Beaufort, Glynebwy



Ffôn: 01495 355937 / 07968 472812

E-bost: alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

Gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk/visit

 [blaenauwentcbc](https://www.facebook.com/blaenauwentcbc)

 [@BlaenauGwentCBC](https://twitter.com/BlaenauGwentCBC)

 [BlaenauGwentCBC](https://www.youtube.com/BlaenauGwentCBC)